

Cyflwyniad

Mae'r ffeithlen hon yn esbonio sut y bydd eich buddion pensiwn o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn cael eu heffeithio gan absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu (cyfeirir ato weithiau fel absenoldeb Cysylltiedig a Phlant).

Ydw i'n parhau i dalu cyfraniadau pensiwn ar y tal a gefais yn ystod fy nghyfnod o absenoldeb?

Bydd gofyn i chi dalu cyfraniadau ar unrhyw dal 'statudol' neu 'cytundebol' y byddwch yn ei dderbyn yn ystod eich cyfnod o absenoldeb sy'n ymwneud â phlant. Er gwaethaf talu llai o gyfraniadau yn ystod y cyfnod hwn, NI fydd fydd cronniad eich pensiwn yn cael ei heffeithio. Dylech gysylltu â'ch cyflogwr os ydych yn dymuno gwirio eich hawliau absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth neu Mabwysiadu.

Beth sy'n digwydd pan ddaw fy hawl i dâl Mamolaeth, Tadolaeth neu Fabwysiadu i ben?

Os byddwch yn penderfynu dychwelyd i'r gwaith ar ddiwedd eich cyfnod statudol o absenoldeb sy'n gysylltiedig a phlant, byddwch yn ail ddechrau talu cyfraniadau ar eich cyflog pensiynadwy (yn ôl yr arfer) a NI fydd eich buddion pensiwn yn cael eu heffeithio. Fodd bynnag, os ydych yn penderfynu cymryd cyfnod o absenoldeb ychwanegol di-dâl, sy'n gysylltiedig a phlant (fel arfer ar ôl 39 wythnos), bydd eich cyflog yn dod i ben a NI fyddwch yn adeiladu buddion pensiwn pellach yn ystod y cyfnod hwn (cyfeirir ato fel 'pensiwn a gollwyd').

Gallaf brynu yn ol y 'pensiwn coll'?

Pan fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith, bydd eich cyflogwr yn rhoi y dewis i chi brynu yn ôl y pensiwn a gollwyd yn ystod eich absenoldeb drwy lunio trefniant Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY). Ar yr amod eich bod yn gwneud etholiad i brynu yn ôl o fewn 30 diwrnod o ddychwelyd i'r gwaith (neu gyfnod hirach fel mae eich Cyflogwr yn caniatáu)¹, bydd y gost o brynu yn ol y pensiwn a gollwyd yn cael ei rannu rhyngoch chi a'ch Cyflogwr; 1/3 i chi a 2/3 i'ch Cyflogwr.

Sut gyfrifi'r y gost o brynu yn ol y 'pensiwn coll'?

Mae'r gost yn seiliedig ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) ac mae'n cael ei gyfrifo gan gyfeirio at eich 'cyflog pensiynadwy sydd wedi ei golli', sydd wedi'i seilio ar eich Cyflog Pensiynadwy Tybiedig (CPT), fel cyfartaledd o'r tâl pensiynadwy yr ydych yn derbyn o fewn y 3 mis cyflawn (neu 12 wythnos os telir yn wythnosol) cyn eich cyfnod o leihau / dim cyflog.

¹Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Cyflogwr.

Sut ydwyf yn prynu yn ol y 'pensiwn coll'?

Mae'n ofynnol i'ch Cyflogwr ddarparu chi gyda'r ffigwr y 'cyflog pensiynadwy sydd wedi ei golli', a fydd yn eich galluogi i gael mynediad i'r **Modelwr CPY** ar-lein i gyfrifo'r gost o brynu yn ol eich pensiwn coll: <https://www.lgpsmember.org/>

Er mwyn parhau, bydd rhaid i chi argraffu'r **Ffurflen Gais** ar-lein a dychwelyd copi i'ch Cyflogwr a'r Gronfa Bensiwn. Bydd gennych yr opsiwn i brynu yn ol eich pensiwn coll fel un taliad lwmp swm (trwy'r gyflogres) neu'n fisol dros gyfnod isafswm o 12 mis. Os ydych yn dymuno talu bob mis, efallai y bydd gofyn i chi gael archwiliad meddygol gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig (ar gost eich hun) i dystio eich bod mewn 'iechyd rhesymol dda'. Bydd rhaid i chi ddychwelyd yr ardystiad hwn gyda'ch ffurflen gais i'ch Cyflogwr a Gronfa Bensiwn.

Os nad ydych yn ethol i brynu yn ol eich pensiwn coll, bydd y pensiwn a adeiladwyd yn ystod y Flwyddyn Cynllun (1 Ebrill hyd 31 Mawrth) ble mae eich cyfnod o absenoldeb yn disgyn, yn ol cyfran yn llai o ganlyniad, sy'n golygu bydd y pensiwn sy'n daladwy ar eich ymddeoliad (neu marwolaeth) yn llai. Gall hefyd gael effaith ar y dyddiad y gallwch ymddeol a derbyn taliad o'ch buddion heb eu gostwng cyn eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA).

Beth os wyf yn talu cyfraniadau ychwanegol?

Bydd unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) yr ydych yn talu yn parhau i fod yn daladwy yn ystod eich cyfnod o absenoldeb, ar yr amod eich bod yn derbyn digon o gyflog i dalu eich cyfraniad. Fodd bynnag, os ydych yn talu CGY ar gyfer yswiriant bywyd ychwanegol, bydd rhaid i chi wneud y trefniadau angenrheidiol i barhau i dalu yn ystod eich cyfnod o absenoldeb er mwyn sicrhau nad yw eich yswiriant yn dod i ben. Os ydych yn talu Cyfraniadau Rheolaidd Ychwanegol (CRhY) neu Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) tuag at brynu pensiwn ychwanegol, neu os ydych yn prynu 'blynyddoedd ychwanegol', rhaid i chi barhau i dalu cyfraniadau yn ystod eich cyfnod o absenoldeb neu bydd eich contract yn dod i ben.

Beth am dyddiadau 'Cadw Mewn Cysylltiad'?

Mae dyddiadau 'Cadw Mewn Cysylltiad' (CMC) ar gael yn ystod cyfnod o absenoldeb di-dâl ychwanegol sy'n gysylltiedig a phlant. Mae hyn yn caniatáu i chi fynychu eich gweithle yn ystod y cyfnod am hyd at uchafswm o 10 diwrnod. Bydd unrhyw dâl yr ydych yn ei dderbyn am fynychu dyddiadau CMC yn cael eu ystyried i fod yn bensiynadwy. Cysylltwch â'ch Cyflogwr am ragor o wybodaeth ar y mater hwn.

Rhagor o Wybodaeth

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ffôn: **01267 224 043** E-bost: pensiynau@sirgar.gov.uk



**Absenoldeb Mamolaeth,
Tadolaeth a Mabwysiadu**